Ionawr 2025

(Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg)

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Ymarfer Hapsamplu'r Panel Craffu Llwybrau Newydd

## Canfyddiadau ac adborth yr aelodau

## Ionawr 2025

## Cynnwys


1. Trosolwg, Cefndir, Diben a Methodoleg 3
2. Crynodeb gweithredol 7
3. Adolygiad o atgyfeiriadau Llwybrau Newydd 8
4. Ymateb i ymholiadau a godwyd 14
5. Camau nesaf 20

## 1. Trosolwg, Cefndir, Diben a Methodoleg

Mae'r llawlyfr sicrhau ansawdd ar wefan Heddlu Dyfed-Powys , yn nodi cefndir, diben a methodoleg y panel.

Ar 29 Ionawr 2025, cyfarfu aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys i adolygu detholiad o atgyfeiriadau yn ymwneud ag oedolion a phobl ifanc i wasanaeth Llwybrau Newydd. Elusen a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) i gefnogi dioddefwyr cam-drin rhywiol yw Llwybrau Newydd.

Rhoddodd Rheolwr Rhanbarthol Llwybrau Newydd ardal Dyfed-Powys grynodeb i'r panel ar y broses atgyfeirio, diben cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol wrth gefnogi dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â'r dull amlasiantaeth o ddarparu cefnogaeth. Eglurodd y canlynol:

- Mae'n ofynnol i Llwybrau Newydd gysylltu â'r sefydliad sy'n atgyfeirio o fewn 48 awr i gael yr atgyfeiriad;
- Caiff atgyfeiriadau eu blaenoriaethu a chysylltir â'r dioddefwr o fewn tridiau ar gyfer achosion acíwt ac o fewn pum diwrnod ar gyfer achosion nad ydynt yn acíwt. Defnyddir y term 'acíwt' pan fydd y drosedd rywiol wedi digwydd o fewn cyfnod penodol sy'n caniatáu cynnal archwiliad fforensig mewn Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Defnyddir y term 'heb fod yn acíwt' lle mae'r drosedd rywiol yn digwydd y tu allan i gyfnod penodol archwilio tystiolaeth fforensig.
- Rôl y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol yw rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i ddioddefwyr troseddau rhywiol diweddar a hanesyddol. Bydd y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol yn rhoi cyngor diduedd i'r dioddefwr ar yr holl opsiynau sydd ar gael iddo er mwyn ei alluogi i wneud dewisiadau gwybodus. Mae'r cynghorydd

annibynnol ar drais rhywiol yn helpu dioddefwyr i lywio eu ffordd trwy'r broses cyfiawnder troseddol.

- Mae gwasanaeth cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn cael ei arwain gan y dioddefwyr, a'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain fydd yn penderfynu pa mor aml y bydd cyswllt.
- Mae cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn gweithredu fel pwynt cyswllt i gysylltu â'r heddlu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar ran y dioddefwr.
- Bydd cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol yn cefnogi dioddefwr drwy gydol ymchwiliad yr heddlu.
- Er bod angen ymgysylltu â dioddefwyr, nododd Rheolwr Rhanbarthol Llwybrau Newydd fod y niferoedd sy'n rhoi'r gorau i ymgysylltu yn isel iawn.

Ochr yn ochr â Rheolwr Rhanbarthol Llwybrau Newydd, eglurodd Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau CHTh i'r panel pam fo'r pwnc hwn wedi'i nodi fel maes i'r panel graffu arno. Cyflwynwyd ystadegau a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Llwybrau Newydd yn y blynyddoedd 2022-2023 a 2023-2024. Tynnwyd sylw hefyd at yr heriau unigryw sy'n gysylltiedig â demograffeg ardal Dyfed-Powys a'r gofyniad i ddioddefwyr deithio i'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol sydd wedi'u lleoli yn Abertawe neu Aberystwyth. Ysgogodd hyn drafodaeth mewn perthynas â hygyrchedd y gwasanaethau hyn i'r dioddefwyr hynny sy'n byw mewn lleoliadau gwledig yn Nyfed-Powys. Cydnabuwyd gan yr SCHTh a Llwybrau Newydd y gallai lleoliad adeiladau Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol effeithio ar hygyrchedd ar draws ardaloedd y Llu. Cytunwyd ar y lleoliadau fel rhan o raglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn seiliedig ar alw, poblogaeth, ystadegau troseddu ac ystyriaethau teithio/hygyrchedd. Bydd lefelau galw a hygyrchedd y gwasanaethau yn parhau i gael eu hadolygu.

Cafodd y panel ddeunydd i'w ddarllen ymlaen llaw cyn mynychu'r cyfarfod hwn a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Templed o'r atgyfeiriad i Llwybrau Newydd.
- Templed o'r set cwestiynau ar ffurflen electronig (e-Ffurflen).
- Siart llif gwasanaeth Llwybrau Newydd sy'n mapio taith y dioddefwr gyda'r sefydliad.
- Copi o adroddiad arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi- *An inspection of how well the police and National Crime Agency tackle the online sexual abuse and exploitation of children.*

Yr agwedd, o fewn adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi y gofynnwyd i'r panel ei hystyried yn benodol oedd *'Mynediad i wasanaethau eraill'* (tudalennau 37-38), a oedd yn tynnu sylw at y canlynol:

> *"Pan fydd plentyn yn dioddef cam-drin neu gam-fanteisio rhywiol ar-lein, ein canfyddiad oedd nad oedd swyddogion bob amser yn ystyried atgyfeirio i Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Ac nid yw rhai o'r canolfannau hyn wedi'u paratoi ar gyfer achosion cam-drin ar-lein.*
>
> *Efallai na fydd angen archwiliad corfforol ar blant, ac efallai nad ydynt wedi dioddef trawma corfforol, ond drwy beidio â'u hatgyfeirio at Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol mae swyddogion yn colli cyfleoedd i ddioddefwyr gael gafael ar wasanaethau therapiwtig. Gallai'r gwasanaethau hyn helpu plant i ymdrin â'r trawma y maent wedi'i ddioddef. Gallai'r gwasanaethau hyn hefyd helpu i baratoi plant petai delweddau ohonynt yn ymddangos yn gyhoeddus eto yn y dyfodol.*
>
> *Dywedodd aelodau staff mewn un ganolfan eu bod wedi ceisio cymharu niferoedd achosion y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol â niferoedd yr achosion a hysbyswyd i'r heddlu, er mwyn sicrhau bod holl achosion troseddau rhywiol yn cael eu hatgyfeirio atynt. Ond nid oedd yr heddlu lleol yn gallu rhoi gwybodaeth sylfaenol iddynt am adroddiadau troseddu rhywiol.*
>
> *Mae rhannu delwedd anweddus o blentyn yn drosedd, does waeth beth yw oedran y person sy'n rhannu'r ddelwedd honno. Mae hon yn un o grŵp o droseddau yn erbyn y 'wladwriaeth', sy'n nodi'r Goron fel y dioddefydd. Efallai fod y plentyn sy'n destun y ddelwedd yn gysylltiedig â'r drosedd, ond ni chaiff ei gofnodi fel y dioddefydd. Mae hyn yn golygu na fydd yn cael ei atgyfeirio at wasanaethau defnyddwyr o dan Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau, felly efallai na fydd yn cael ei atgyfeirio at wasanaethau cymorth. Mae hyn yn golygu efallai fod plant yn colli cyfle arall i gael gwasanaethau cymorth."*

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, gofynnwyd i'r panel adolygu atgyfeiriadau a gafwyd gan yr heddlu a gofynnwyd iddo ystyried y canlynol:

1. A oes unrhyw fylchau neu hepgoriadau wrth nodi atgyfeiriadau priodol i Llwybrau Newydd gan yr heddlu?
2. Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael mewnbwn amserol a'r math cywir o gymorth.
3. Profi lefelau ymgysylltiad cleientiaid
4. Sut mae atgyfeiriadau plant yn cymharu ag atgyfeiriadau oedolion o ran hygyrchedd, amseroldeb a chymorth cyffredinol?

Mewn perthynas â'r pedwerydd ffocws, gofynnwyd i'r panel ystyried ei safbwyntiau ar hyn ar ddiwedd y cyfarfod, er mwyn gallu gwerthuso'r holl achosion yr oedd wedi craffu arnynt. Pe byddai'r panel yn darganfod unrhyw broblemau'n gysylltiedig â'r broses atgyfeirio gan yr heddlu, bydd hyn yn cael ei fonitro a'i olrhain y tu allan i'r adroddiad hwn, gan mai prif ffocws yr adroddiad hwn yw craffu ar berfformiad gwasanaeth cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol Llwybrau Newydd.

Gyda chyflwyniad yr e-ffurflenni, dyma'r tro cyntaf y gofynnwyd i'r panel roi ei adborth drwy'r ffurflenni hyn ar-lein. Dyfeisiwyd y cwestiynau a ddefnyddir yn yr e-ffurflenni gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) ac roeddent yn seiliedig ar y set gwestiynau a ddefnyddir gan oruchwylwyr Llwybrau Newydd wrth archwilio perfformiad cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol drwy offeryn archwilio cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol. Defnyddiwyd e-ffurflenni i ddarparu data i ategu'r pedwar maes ffocws a nodir uchod. I weld enghraifft o'r templed e-ffurflen a ddefnyddiodd y panel ar gyfer y cyfarfod hwn, gallwch glicio ar y cod QR hwn:

Anogwyd aelodau'r panel i weithio mewn parau wrth adolygu'r atgyfeiriad cyntaf ac yna roeddent yn gallu penderfynu a ddylent barhau mewn parau neu adolygu atgyfeiriadau yn unigol. Mae angen ystyried hyn wrth asesu'r amrywiad yn y data o achosion 1 i 4.

## 2. Crynodeb gweithredol

Rhwng popeth, adolygodd y panel bedwar achos.

Adborth cadarnhaol:

- O’r pedwar achos a adolygwyd, dim ond un oedd â bwlch wrth nodi atgyfeiriadau gan yr heddlu i Llwybrau Newydd.
- Roedd tystiolaeth ym mhob un o’r pedwar achos o ymgysylltiad cryf rhwng cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol a’r dioddefwyr.
- Ystyriwyd bod achosion 3 a 4 yn gryfach na’r ddau arall ar sail manylion yr archwiliad a gynhaliwyd gan y cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol wrth gofnodi trafodaethau, pryderon ac wrth arddangos y perthnasoedd rhyngweithiol rhwng Llwybrau Newydd, y dioddefwr a sefydliadau allanol.
- Ar draws y pedwar achos a archwiliwyd, mae’r gwasanaeth a ddarperir i oedolion a phlant yn debyg, a barn gyffredinol y panel oedd yr ymddengys bod plant yn cael eu trin â gofal priodol.

Meysydd i’w gwella:

- Efallai fod argaeledd swyddogion yn cyfrannu at hyd ymchwiliadau. Yn un o’r pedwar achos, bu oedi wrth bennu pwy oedd swyddog yr achos. Unwaith yr oedd y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol yn ymwybodol o swyddog yr achos, daeth i’r amlwg nad oedd swyddog yr achos ar gael oherwydd ei fod ar wyliau blynyddol.
- Roedd oedi mewn gohebiaeth rhwng Heddlu Dyfed-Powys a heddluoedd eraill yn ymestyn y cyfnod rhwng darparu diweddariadau i’r dioddefwr ac yn peri risg o ymddieithrio.
- Mae safonau adrodd gan gynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn amrywio’n sylweddol. Nid yw’n ymddangos bod dull safonol ar gyfer diweddaru ffeiliau achos. Holodd y panel ynghylch goruchwyliaeth ac amlder gwiriadau sicrhau ansawdd i wella’r agwedd hon.

## 3. Adolygiad o atgyfeiriadau Llwybrau Newydd

*Atgyfeiriad 1 - (Oedolyn)*

*Cafwyd atgyfeiriad o’r tu hwnt i ardal yr heddlu ynghylch dioddefwr sy’n oedolyn yn adrodd achos hanesyddol o gam-drin rhywiol.*

**Maes ffocws un** - *A oedd unrhyw fylchau neu hepgoriadau wrth nodi atgyfeiriadau priodol i Llwybrau Newydd gan yr heddlu?*

- Consensws cyffredinol y panel oedd nad oedd unrhyw fylchau a bod y manylion yn yr atgyfeiriad yn berthnasol.
- Nododd aelodau’r panel fod y dioddefwr wedi datgelu bod ganddo awtistiaeth ac nid oedd unrhyw gyfeiriad i’w weld at y gofyniad am gymorth arbenigol i sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu mewn modd amserol.

**Maes ffocws dau** - *Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael mewnbwn amserol a’r math cywir o gymorth.*

- Roedd yr ohebiaeth rhwng y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol a’r dioddefwr yn amserol a nododd y panel naws galonogol a sensitif. Fodd bynnag, roedd oedi y tu hwnt i reolaeth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol, gan gynnwys aros am ymatebion gan yr heddlu a’r llysoedd. Nodwyd bod y broses yn gyffredinol wedi cymryd gormod o amser i ddirwyn i ben, gyda’r trawma sy’n gysylltiedig â’r dioddefwr yn brif ffocws. Roedd pryderon ynghylch y ffaith ei fod yn gorfod ail-fyw’r profiadau hyn at ddibenion y system cyfiawnder troseddol.

**Maes ffocws tri** - *Profi lefelau ymgysylltiad cleientiaid.*

- Nodwyd bod y dioddefwr yn awtistig a gofynnodd rhai aelodau o’r panel a oedd wedi cael y lefel gywir o gymorth i hwyluso ei ymgysylltiad; serch hynny, nododd aelodau eraill fod y dioddefwr wedi nodi ei ddewis cyswllt ac wedi adrodd am y digwyddiad hwn yn annibynnol, a arweiniodd at drafodaeth ynghylch capasiti. Cytunwyd mai’r

tebygolrwydd oedd bod y dioddefwr yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun.

- Nododd y panel yr ohebiaeth fynych rhwng y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol a'r dioddefwr a dyfnder cofnodi'r ymgysylltiad hwn.

**Materion a godwyd**

- Holodd y panel, mewn perthynas â dioddefwyr y mae angen oedolyn priodol arnynt, cefnogi pwy yw dyletswydd Llwybrau Newydd? Er enghraifft, ai aelod o'r teulu/ffrind sy'n gweithredu fel oedolyn priodol neu'r dioddefwr, wrth sicrhau bod cymorth yn cael ei dderbyn a'i ddeall?
- Nododd y panel fod yr atgyfeiriad yn anodd ei olrhain gan ei fod yn cwmpasu llawer o wahanol feysydd gan gynnwys llys teulu, heddlu y tu allan i ardal yr heddlu a cham-drin hanesyddol. Gofynnwyd a yw Llwybrau Newydd yn cefnogi dioddefwyr sy'n mynd i lys teulu ac a all gefnogi dioddefwyr pan fyddant yn byw yn Lloegr ond bod y digwyddiad wedi digwydd yn ardal Dyfed-Powys?
- Holodd y panel pa mor aml y dylai cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol fod yn cysylltu â dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol?

*<u>Atgyfeiriad 2 – (plentyn)</u>*

*Mae dioddefwr sy'n blentyn wedi mynychu Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i gael asesiad gan gyfryngwr oherwydd ei fod yn datgelu digwyddiad hanesyddol a ddigwyddodd mewn ardal y tu allan i ardal yr heddlu.*

**Maes ffocws un** - *A oedd unrhyw fylchau neu hepgoriadau wrth nodi atgyf-eiriadau priodol i Llwybrau Newydd gan yr heddlu?*

- Roedd bwlch oherwydd bod y dioddefwr yn cael sesiynau cwnsela.
- Roedd dryswch ynghylch y dyddiadau yn y nodiadau.

**Maes ffocws dau** - *Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael mewnbwn amserol a'r math cywir o gymorth.*

- Cododd y panel bryderon bod oddeutu pum swyddog wedi bod yn rhan o'r broses ac nad oedd y swyddog diweddaraf i bob golwg wedi cysylltu â'r dioddefwr.
- Mynegodd y panel bryderon ynghylch ansawdd rhannu gwybodaeth rhwng yr heddlu; er enghraifft, darparwyd rhif ffôn anghywir.
- Ymddangosai hefyd nad oedd Llwybrau Newydd yn cael ymatebion gan yr heddlu.
- Cododd y panel sut roedd golygiadau angenrheidiol yn yr adroddiad yn ei gwneud hi'n heriol canfod union amgylchiadau'r atgyfeiriad.

**Maes ffocws tri** - *Profi lefelau ymgysylltiad cleientiaid.*

- Mynegodd y panel bryderon ynghylch yr oedi cyn i heddlu gymryd cyf-rifoldeb.
- Ymddengys nad oedd unrhyw berthynas rhwng y ddau heddlu dan sylw, a fyddai wedi helpu i sicrhau gwasanaeth llyfn i'r dioddefwr. O ganlyniad i hyn, rhoddwyd straen ar wasanaeth Llwybrau Newydd.

**Materion a godwyd**

- Nododd y panel fod yr ymgais gyntaf i gysylltu gan gynghorydd annibynnol ar drais rhywiol wedi'i chofnodi ym mis Chwefror 2022, ond mai ym mis Awst 2022 oedd dyddiad y cyswllt gwirioneddol. Nododd y panel fod yr oedi oherwydd bod y dioddefwr wedi ymgysylltu â gwasanaeth cwnsela. Gofynnodd y panel y cwestiwn a all cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol barhau â'i gymorth wrth i'r dioddefwr geisio sesiynau cwnsela?
- Holodd y panel amlder yr oruchwyliaeth sy'n gysylltiedig â'r atgyfeiriad hwn, gan gwestiynu a allai'r cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol fod wedi gwneud mwy i sicrhau ymateb mwy prydlon gan yr heddlu a gwneud mwy o ymdrech i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r teulu?

*<u>Atgyfeiriad 3 – (oedolyn)</u>*

*Mae'r dioddefwr wedi datgelu ymosodiad rhywiol gan gynbartner.*

**Maes ffocws un** - *A oedd unrhyw fylchau neu hepgoriadau wrth nodi atgyfeiriadau priodol i Llwybrau Newydd gan yr heddlu?*

- Dangosodd y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol empathi rhagorol tuag at y dioddefwr ac roedd yr adroddiad yn drylwyr iawn. Mae'r panel wedi gofyn am roi'r adborth cadarnhaol hwn i'r cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol dan sylw.
- Gadawyd y cwestiwn yn ymwneud â chaniatâd i rannu gwybodaeth rhwng Heddlu Dyfed-Powys a Llwybrau Newydd yn wag gan yr atgyfeiriwr.

**Maes ffocws dau** - *Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael mewnbwn amserol a'r math cywir o gymorth.*

- Roedd oedi wrth ddyrannu swyddog yr achos. Cododd y panel sawl cwestiwn yn gysylltiedig â'r broses o ddyrannu swyddog yr achos a holi pam na ystyriwyd dewis arall yn yr achos hwn. Cymerodd ddeng diwrnod i Heddlu Dyfed-Powys benodi swyddog yr achos, ac yna roedd swyddog yr achos ar wyliau blynyddol am dair wythnos wedyn. Ni ddarparwyd unrhyw gyswllt amgen yn y cyfamser.

**Maes ffocws tri** - *Profi lefelau ymgysylltiad cleientiaid.*

- Tynnodd y panel sylw at y broses hirfaith, gan nodi bod y dioddefwr yn cwestiynu'n gyson pam roedd yn rhaid i bethau gymryd cyhyd.Nid oedd yn ymddangos bod diffyg cyfathrebu swyddog yr achos wedi effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol a'r dioddefwr.
- Cytunodd y panel fod y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol wedi

cofnodi'r camau a gymerwyd yn rhagorol ac wedi meithrin perthynas gefnogol ac emphatig â'r dioddefwr.

**Materion a godwyd**

- A yw'r oedi wrth ddyrannu swyddog yr achos yn ddigwyddiad cyffredin ac a yw hyn yn effeithio ar ymgysylltiad cleientiaid o safbwynt Llwybrau Newydd?

*Atgyfeiriad 4 – (plentyn)*

*Mae dioddefwr plentyn wedi gwneud yr atgyfeiriad drwy'r Ganolfan Atgyf-eirio Ymosodiadau Rhywiol gyda chymorth ei fam.*

**Maes ffocws un** - *A oedd unrhyw fylchau neu hepgoriadau wrth nodi atgyf-eiriadau priodol i Llwybrau Newydd gan yr heddlu?*

- Digwyddodd yr archwiliad meddygol yr un diwrnod ag y derbyniwyd yr atgyfeiriad a effeithiodd yn gadarnhaol ar gyflymder yr holl gamau dilynol.
- Mae tystiolaeth o gydweithio rhwng gwahanol sefydliadau, sy'n enghraifft o arfer gorau.
- Oherwydd hyd yr ymchwiliad, nodwyd y gwnaed honiad pellach o dreisio yn erbyn y troseddwr honedig o fewn y cyfnod.

**Maes ffocws dau** - *Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael mewnbwn amserol a'r math cywir o gymorth.*

- Gofynnodd y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol gwestiynau a chydlynu ymatebion pan oedd yr ymchwiliad i bob golwg yn sefyll yn ei unfan.
- Defnyddiodd aelod o'r panel y gymhariaeth bod y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol i bob golwg yn bont a oedd yn dal yr ymchwiliad hwn at ei gilydd ac yn cefnogi'r dioddefwr drwyddo draw.

**Maes ffocws tri** - *Profi lefelau ymgysylltiad cleientiaid.*

- Tynnodd y panel sylw at y berthynas a'r ymgysylltiad clir a chryf rhwng y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol a'r dioddefwr drwy gydol y cyfnod ymchwilio.
- Roedd y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol mewn cysylltiad cyson â'r dioddefwr ac roedd yn ymatebol i anghenion y dioddefwr.
- Roedd perthynas waith dda rhwng y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol a swyddog yr achos a arweiniodd at ymgysylltiad cryf drwyddo draw.

**Maes ffocws pedwar** - *Sut mae atgyfeiriadau plant yn cymharu ag atgyf-eiriadau oedolion o ran hygyrchedd, amseroldeb a chymorth cyffredinol.*

- O werthuso'r pedwar achos, nododd aelodau'r panel wasanaeth tebyg gan gynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol. Roedd tebygrwydd rhwng yr achosion a allai gyfrif am hyn; yr oedi hir sy'n gysylltiedig â chyn-nwys ardaloedd y tu allan i ardal yr heddlu, hyd ymchwiliadau, ac yst-yried anghenion niwroamrywiol o fewn un atgyfeiriad oedolyn ac un atgyfeiriad plentyn.
- Cydnabu'r panel mai dim ond nifer fach o atgyfeiriadau a samplwyd ganddynt, ac y mae'r barnau hyn yn seiliedig arnynt.
- Ar y cyfan, gwnaeth safon atgyfeiriadau 3 a 4 argraff dda ar y panel o'u cymharu ag atgyfeiriadau 1 a 2.

## 4. Ymateb i ymholiadau a godwyd

| Arsylwadau | Ymateb Llwybrau Newydd |
|---|---|
| Holodd y panel, mewn perthynas â dioddefwyr y mae angen oedolyn priodol arnynt, pwy sydd gan Llwybrau Newydd ddyletswydd i'w gefnogi; er enghraifft, aelod o'r teulu/ffrind yn gweithredu fel oedolyn priodol neu'r dioddefwr yn uniongyrchol i sicrhau bod cymorth yn cael ei dderbyn a'i ddeall? | *Byddai hyn yn dibynnu ar oedran/gallu a dewis y cleient. Os yw'r cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol yn ymgysylltu â'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn uniongyrchol, caiff yr aelod o'r teulu/ffrind ei gyfeirio/ei atgyfeirio i gael mynediad at ei gymorth annibynnol ei hun.* |
| Nododd y panel fod yr atgyfeiriad cyntaf yn anodd i'w ddilyn gan ei fod yn cwmpasu llawer o wahanol feysydd gan gynnwys llys teulu, heddlu y tu allan i ardal yr heddlu a cham-drin hanesyddol. Fe wnaethon nhw holi, a yw Llwybrau Newydd yn cefnogi dioddefwyr sy'n mynd i'r llys teulu ac a allant gefnogi dioddefwyr sy'n byw yn Lloegr gyda'r digwyddiad yn ardal Dyfed-Powys? | *Ydy. Bydd cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn cefnogi mewn llys teulu oni bai fod gweithiwr proffesiynol arall sy'n fwy addas i ymgymryd â hyn. Er enghraifft, efallai mai cynghorydd annibynnol ar drais domestig yw'r gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol i gefnogi cleient os yw'r achos yn gysylltiedig â cham-drin domestig.*<br><br>*Gall y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol hefyd gefnogi cleient i fanteisio ar un o'r safleoedd tystiolaeth o bell ar gyfer eu gwrandawiad llys teulu.*<br><br>*Gall cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol gefnogi cleientiaid sy'n byw yn Lloegr, neu unrhyw le y tu allan i Gymru, os dyna ddewis y cleient. Rydym yn cael ein harwain gan gleientiaid, felly gall rhai cleientiaid a gyfeirir at y gwasanaeth ddewis aros gyda Llwybrau Newydd, er eu bod yn byw'n bell neu'n symud i fyw y tu allan i'r ardal.*<br><br>*Byddem bob amser yn trafod yr opsiwn i bobl ymgysylltu â chymorth gan eu Gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol lleol a/neu* |

| | |
|---|---|
| | *unrhyw wasanaethau priodol eraill. Byddwn yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau hynny, sy'n cynnwys cyfeirio a/neu atgyfeirio.*<br><br>*Os yw cleient yn dewis cymorth yn lleol, gall ein tîm o gynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol ailddechrau'r cymorth, os cynhelir yr achos yng Nghymru, ac nad yw ei gynghorydd annibynnol ar drais lleol yn gallu teithio i'r achos. Byddem yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaeth lleol y cleient.* |
| O fewn Atgyfeiriad 1, ni allai'r panel ganfod y canlynol:<br>• a oedd amser ymateb o 48 awr wedi'i fodloni gyda'r atgyfeiriwr;<br>• A oedd y pryderon diogelu wedi'u nodi a'u hadrodd yn briodol;<br>• A oedd y weithdrefn cysylltu â chleient wedi'i dilyn.<br>A allwch chi edrych ar y ffeil a rhoi rhywfaint o eglurhad ar y pwyntiau hyn uchod? | *Y dangosyddion perfformiad allweddol yw bod yr amser ymateb o 48 awr yn cael ei gofnodi ar y System Rheoli Achosion. Daeth yr atgyfeiriad hwn i law drwy e-bost ar ddydd Sadwrn ac anfonwyd ateb e-bost awtomataidd at y cyfeiriwr yn cadarnhau derbyn yr atgyfeiriad.*<br><br>*Pryderon diogelu - mae adran diogelu ar ein system rheoli achosion ac o fewn yr Asesiad Diogelwch a Chymorth. Roedd hyn wedi'i gwblhau gan y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol a amlinellodd statws cyfranogiad y gwasanaethau cymdeithasol ac asesiad o unrhyw bryderon diogelu uniongyrchol.*<br><br>*Dilynwyd y weithdrefn cysylltu â'r cleient. Derbyniwyd yr atgyfeiriad ddydd Sadwrn. Wedi'i uwchlwytho, ei flaenoriaethu a'i ddyrannu ar y dydd Llun. Cysylltodd cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol â'r cleient ddydd Mercher, o fewn y dangosydd perfformiad allweddol pum diwrnod.* |

| | |
|---|---|
| Hefyd, yn atgyfeiriad 1, roedd y dioddefwr wedi datgelu bod ganddo awtistiaeth ac nid oedd unrhyw gyfeiriad at y gofyniad am gymorth arbenigol, i bob golwg. A allwch chi roi gwybod a yw hyn yn wir? | *Trafododd y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol a'r cleient awtistiaeth y cleient o'r cyswllt cyntaf. Mae hyn yn weladwy yn nodiadau'r cleient a thrwy gydol yr Asesiad Diogelwch a Chymorth. Roedd hyn yn cynnwys cymorth ar sut y gall y cleient ymgysylltu'n fwy effeithiol, a sut i ymdrin â rhai cwestiynau.* |
| Pa mor aml y dylai cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol gysylltu â dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol? | *Arweinir amlder y cymorth gan y cleient. Mae hyn yn amrywio o wythnosol (yn enwedig ar ddechrau ymgysylltu â'r gwasanaeth) i unwaith bob tair wythnos, unwaith y mis, bob deufis neu'n ad hoc os mai dyna y mae'r cleient yn ei ffafrio.*<br><br>*Mae amlder y cymorth yn newid drwy gydol yr amser y mae cleient yn ymgysylltu â'r gwasanaeth. Bydd hyn yn dibynnu ar ei anghenion cymorth personol ar unrhyw adeg benodol a'r diben o ddiwallu anghenion cleientiaid yn ystod gwahanol gamau a phenderfyniadau'r broses cyfiawnder troseddol.* |
| Nododd y panel fod y cais cyswllt cyntaf wedi'i wneud ym mis Chwefror 2022; fodd bynnag, y dyddiad a nodwyd i'r cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol gysylltu â'r dioddefwr oedd ym mis Awst. Nododd y panel fod yr oedi gydag ymgysylltu â'r dioddefwr yn gysylltiedig â'r dioddefwr yn ymgysylltu â gwasanaeth cwnsela. A all cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol barhau â'i gymorth wrth i'r dioddefwr geisio sesiynau cwnsela? | *O adolygu'r cofnod, roedd yr oedi oherwydd nad oedd y cleient yn gallu ymgysylltu ar adeg yr atgyfeiriad cychwynnol. Mae'r dyddiadau yn ymwneud â dau atgyfeiriad gwahanol: llysfam y cleient wnaeth y cyswllt cychwynnol ar yr un diwrnod â'r atgyfeiriad, sy'n unol â'r weithdrefn gyswllt â'r cleient ac yn bodloni'n prif ddangosydd perfformiad. Roedd ymdrechion pellach i gysylltu â'r llysfam yn aflwyddiannus, a arweiniodd at anfon llythyr at y teulu. Yn dilyn diffyg ymateb i'r llythyr, caewyd ffeil y cleient, sydd i gyd yn unol â'r weithdrefn cysylltu â chleientiaid.* |

| | |
|---|---|
| | *Yna atgyfeiriwyd y cleient gan yr heddlu i Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer cyfweliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau, yn dilyn datgeliadau pellach, a gofynnwyd i'r cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol beidio â chysylltu tan ar ôl y cyfweliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau.*<br><br>*Ar ôl cynnal y cyfweliad Sicrhau'r Dystiolaeth Orau, cysylltodd y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol â llysfam y cleient, a dyna pryd y gwnaeth y cleient ymgysylltu â chymorth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol.*<br><br>*O ran cefnogi dioddefwyr sy'n ceisio cwnsela, gall ein cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol barhau i gefnogi cleientiaid, os dyna yw dymuniad y cleient, tra bydd yn cael sesiynau cwnsela. Mae ein cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol a'n timau cwnsela yn cydweithio'n agos i sicrhau bod y cymorth mwyaf priodol ar gael i gleientiaid.* |
| O fewn atgyfeiriad 2, nid oedd y panel yn gallu egluro a oedd pryderon diogelu wedi'u nodi neu eu hadrodd yn briodol. | *O adolygu'r atgyfeiriad hwn, cynhaliwyd yr asesiad diogelu cychwynnol gan y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol ar ddiwrnod yr atgyfeiriad a'i gofnodi ar yr Asesiad Diogelwch a Chymorth.* |
| Pa mor aml y cynhelir gwiriadau sicrhau ansawdd goruchwylio wrth ddarparu goruchwyliaeth sy'n gysylltiedig â'r atgyfeiriadau hyn. Holodd y panel a allai'r cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol fod wedi gwneud mwy yn yr ail atgyfeiriad, o ran sicrhau ymatebion mwy prydlon | *Mae polisïau a gweithdrefnau'r cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol ar feysydd sy'n cynnwys rheoli achosion a goruchwylio, yn sicrhau dull safonol ynghyd â rheolaeth gadarn.*<br><br>*Mae cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn cwblhau'r un Asesiad Diogelwch a Chymorth sydd â 14 parth i gofnodi risg ac anghenion* |

| | |
|---|---|
| gan yr heddlu a gwneud mwy o ymdrechion i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r teulu? | *cleientiaid bob amser. Mae hwn yn asesiad risg ac anghenion a gydnabyddir yn genedlaethol ar gyfer gwasanaethau cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol.*<br><br>*Maent i gyd yn dilyn rhestr wirio cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol, sy'n atgof gweledol o'r hyn sydd angen ei wneud/pryd yn unol â dymuniadau'r cleient. E.e. mae rhai cleientiaid eisiau gwybod am y broses cyfiawnder troseddol ar unwaith, ond mae'n well gan gleientiaid eraill gael gwybodaeth gryno.*<br><br>*Mae pob cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol yn ymgymryd â hyfforddiant 'cymryd cofnodion' achosion.*<br><br>*Pan gynhelir gwiriadau goruchwylio a sicrhau ansawdd, adolygir yr Asesiad Diogelwch a Chymorth ochr yn ochr â'r nodiadau i wirio am y lefel briodol o fanylder/gwybodaeth ac ati; oherwydd gallai'r wybodaeth gael ei chofnodi mewn gwahanol leoedd. Mae dull safonol ar gyfer cynnwys, bydd y ffordd y mae pethau'n cael eu hysgrifennu yn amrywio.*<br><br>*Mae amlder goruchwylio achosion yn cynnwys:*<br><br>• *Adolygiadau achosion bob deufis*<br>• *Goruchwyliaeth reoli fisol*<br>• *Goruchwyliaeth glinigol fisol*<br>• *Ymarfer myfyriol bob deufis*<br><br>*Gwnaeth y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol nifer o ymdrechion i gysylltu â'r swyddogion yn Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr. Fe wnaethon nhw hefyd gysylltu â* |

| | |
|---|---|
| | *Heddlu Dyfed-Powys pan na chawsant ymateb i'w cyswllt i ofyn am eu cymorth.*<br><br>*Dylai'r diffyg cyswllt fod wedi cael ei uwchgyfeirio at dditectif ringyll, ac yna at dditectif arolygydd, pan barhaodd y diffyg cyswllt, fel sy'n arfer safonol gennym. Mae hyn yn llawer anoddach i'w wneud pan fydd y cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol y tu allan i Gymru gan nad yw'r perthnasoedd a'r prosesau proffesiynol sydd gennym yng Nghymru ar waith.* |
| A yw'r oedi wrth ddyrannu swyddog yr achos yn ddigwyddiad cyffredin yn Nyfed-Powys ac a yw hyn wedi effeithio ar ymgysylltiad cleientiaid o safbwynt Llwybrau Newydd? | *Nid yw'n gyffredin bod oedi yn digwydd cyn dyrannu swyddog yr achos. Mae'n digwydd o bryd i'w gilydd, ac mae hyn yn effeithio ar ymgysylltiad cleientiaid o safbwynt Llwybrau Newydd. Gall wneud i gleientiaid deimlo yr anghofiwyd amdanynt, neu nad ydynt yn bwysig.* |

## 5. Camau nesaf

Gyda'r cynllun sicrwydd ansawdd bellach wedi'i gyflwyno i Llwybrau Newydd, trefnir i aelodau'r panel ymweld â swyddfa Llwybrau Newydd cyn y gweithgaredd craffu nesaf ymhen blwyddyn o'r adroddiad hwn. Drwy ymweld â swyddfa Llwybrau Newydd, bydd aelodau'n cael eu hannog i siarad â chynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn bersonol a chael dealltwriaeth ehangach o'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu. Yna gobeithir y gellir cynnal gwaith craffu pellach i ganfod i ba raddau y mae'r gwasanaeth Llwybrau Newydd yn werthfawr wrth ddarparu cymorth i ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cael eu holrhain at ddibenion monitro a'u defnyddio at ddibenion cymharol wrth ddychwelyd at y pwnc hwn ymhen blwyddyn.